

Banciau:

Gall rywun sy'n honni eu bod o'ch banc eich ffonio i ddweud wrthyhch fod problem gyda'ch cerdyn neu'ch cyfrif. Yn aml bydd y sawl sy'n galw yn swnio'n broffesiynol ac yn ceisio'ch argyhoeddi bod eich cerdyn wedi cael ei glonio neu fod eich arian mewn perygl.



Efallai y byddant yn gofyn am fanylion eich cyfrif, gan gynnwys eich rhif PIN, a hyd yn oed yn cynnig anfon cludwr i gasglu'ch cerdyn. Efallai y byddant hefyd yn eich cynghori i drosglwyddo'ch arian i 'gyfrif diogel' i'w ddiogelu. **Mae hon yn sgam gyffredin a fyddai'ch banc byth yn gofyn i chi wneud hyn.**

Pensiynau a Buddsoddiadau:



Mae galwadau fel hyn yn ymwneud â chyfleoedd 'rhy dda i'w methu' i fuddsoddi, neu i gael mynediad at eich arian pensiwn yn gynharach. **Mae galwadau niwsans ynglŷn â phensiynau bellach yn anghyfreithlon.**

Mae galwadau niwsans ynglŷn â phensiynau bellach yn anghyfreithlon.

Trwsio cyfrifiadur:



Gallai sgamiwr eich ffonio gan honni ei fod o ddesg gymorth cwmni TG adnabyddus, fel Microsoft. Byddan nhw'n dweud wrthyhch chi bod firws ar eich cyfrifiadur a byddan nhw'n gofyn i chi lawrlwytho 'meddalwedd gwrth-firws', a hynny am gost efallai. Ysbïwedd fydd hwn mewn gwirionedd a ddefnyddir i gael gafael ar eich manylion personol.

Fyddai cwmnïau TG dilys byth yn cysylltu â chwsmeriaid yn y modd hwn.

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThem):

Efallai y cewch alwad gan rywun sy'n honni eu bod o CThem yn dweud bod problem gyda'ch ad-daliad treth neu fod gennyhch fil treth heb ei dalu. Efallai y byddant yn gadael neges ac yn gofyn i chi ffonio'n ôl. Eto, peidiwch â chael eich twyllo gan hyn. **Fyddai CThem byth yn cysylltu â chi yn y modd hwn nac yn gofyn i chi ddatgelu gwybodaeth ariannol bersonol fel manylion eich cyfrif banc.**

Galwadau am iawndal:



Galwadau yw'r rhain gan gwmnïau sy'n holi ynglŷn â damwain car y tybiant yr ydych wedi'i chael gan honni y gallech hawlio iawndal. Gallai'r rhain fod yn gwmnïau dilys sy'n chwilio am fusnes ond mae eraill yn sgamwyr. Peidiwch â chymryd rhan yn y galwadau hyn. **Os ydych wedi cael damwain, ffoniwch eich cwmni yswiriant eich hun ar y rhif ffôn a ddarparwyd i chi ar eich polisi.**

Rhifau ffôn:

Mae gan sgamwyr bellach dechnoleg sy'n gallu efelychu rhifau ffôn swyddogol fel eu bod yn ymddangos ar sgrin eich ffôn pan fydd yn canu. Gall hyn eich twyllo i feddwl bod y

sawl sy'n galw yn dod o sefydliad dilys, fel banc neu gwmni cyfleustodau. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, rhowch y ffôn i lawr a ffoniwch y sefydliad yn uniongyrchol.

Defnyddiwch ffôn gwahanol i'w ffonio os yw hynny'n bosibl oherwydd gall sgamwyr gadw'r llinell ffôn ar agor, felly hyn yn oed os ydych wedi rhoi'r ffôn i lawr cyn ffonio'r sefydliad yn uniongyrchol, mae'n bosibl y bydd y llinell yn dal wedi'i chysylltu â'r sgamiwr. Os nad oes modd defnyddio ffôn arall, arhoswch o leiaf 10 munud cyn ffonio.

Gwarchod rhag sgamiau:

Mae'r galwadau hyn gan bobl sy'n honni eu bod yn gweithio i elusen sy'n cefnogi dioddefwyr sgamiau, cwmnïau sy'n gwerthu technoleg gwrth-sgamiau, neu gan rywun sy'n mynnu arian i adnewyddu eich cofrestriad gyda'r Gwasanaeth Dewisiadau Ffôn, sydd mewn gwirionedd yn rhad ac am ddim. **Byddwch yn wylidwrus o'r rhain i gyd.**

Beth yw galwad diwahodd:



Galwadau diwahoddiad yw galwadau gan gwmnïau sy'n ceisio gwerthu rhywbeth i chi, er nad ydych wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw fusnes gyda nhw yn y gorffennol. Nid yw galwadau diwahoddiad yn anghyfreithlon fel arfer ac nid ydynt o reidrwydd yn sgamiau ond fe allan nhw fod yn annifyr, rhwystredigaethol a hyd yn oed yn ddychrynlyd.

Sut allaf osgoi sgamiau ffôn a galwa?

Gallwch atal neu rwystro rhai galwadau diwahoddiad. Rhowch gynnig ar y pethau syml yma:

- Siaradwch gyda'ch darparwr ffôn i weld pa wasanaethau preifatrwydd eraill a gwasanaethau atal galwadau sydd ar gael, ond efallai y bydd angen i chi dalu am rai o'r gwasanaethau hyn.



Cofrestrwch gyda'r Gwasanaeth Dewisiadau Ffôn (TPS) - mae'n rhad ac am ddim ac mae'n gadael i chi ddewis rhwystro unrhyw alwadau telewerthu byw diwahoddiad. Dylai hyn ostwng nifer y galwadau diwahoddiad y byddwch yn eu cael ond mae'n bosibl na fydd pob sgamiwr yn cael ei atal. I gofrestru ffoniwch 0345 070 0707 neu ewch i www.tpsonline.org.uk

- Os oes gennych ffôn clyfar, gallwch ddefnyddio'r gosodiadau ar y ffôn i atal rhifau di-eisiau. Os nad ydych yn siŵr sut i wneud hyn, gallwch alw heibio i'ch siop ffonau symudol leol am gymorth.



- Mae nwyddau ar gael i atal rhai galwadau. Mae rhai cynghorau lleol yn darparu atalwyr galwadau trwy eu gwasanaethau safonau masnach.